# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 2**

DIGARTREFEDD

**PENNOD 2**

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Ceisiadau am gymorth ac asesiad*

## 63 Hysbysu am ganlyniad asesiad

(1) Rhaid i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd am ganlyniad ei asesiad (neu unrhyw adolygiad o'i asesiad) ac, i'r graddau y bo unrhyw fater yn cael ei benderfynu yn groes i fuddiannau'r ceisydd, roi gwybod i'r ceisydd am y rhesymau dros ei benderfyniad.

(2) Os yw'r awdurdod yn penderfynu bod dyletswydd arno mewn perthynas â'r ceisydd o dan adran 75, ond na fyddai wedi gwneud hynny heblaw ei fod wedi rhoi sylw i berson cyfyngedig, rhaid i'r hysbysiad o dan is-adran (1) hefyd—

(a) rhoi gwybod i'r ceisydd ei fod wedi gwneud y penderfyniad ar y sail honno,

(b) cynnwys enw'r person cyfyngedig,

(c) egluro pam fod y person yn berson cyfyngedig, a

(d) egluro effaith adran 76(5).

(3) Os yw'r awdurdod wedi hysbysu awdurdod tai lleol arall, neu'n bwriadu gwneud hynny, o dan adran 80 (atgyfeirio achosion), rhaid iddo hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad hwnnw ar yr un pryd a rhoi gwybod iddo am y rhesymau dros hynny.

(4) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1) neu (3) hefyd—

(a) rhoi gwybod i'r ceisydd am ei hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a'r cyfnod amser y mae'n rhaid cyflwyno cais o'r fath ynddo (gweler adran 85), a

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2019.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 63. (See end of Document for details)*

(b) cael ei roi ar ffurf ysgrifenedig ac, os nad yw'n dod i law, gael ei drin fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd.

(5) Yn y Bennod hon, ystyr "person cyfyngedig" yw person—

(a) nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan y Bennod hon,

(b) sy'n destun rheolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, ac

(c) sydd naill ai—

(i) â dim hawl i ddod i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, neu

(ii) â'r hawl i ddod i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno yn amodol ar y ffaith ei fod yn ei gynnal ac yn ei letya ei hun, ynghyd ag unrhyw ddibynyddion, heb ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 63 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 14**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2019.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 63.